Canllawiau cyn-archebu

Mae hwn yn holiadur byr sydd wedi'i gynllunio i weld a fyddech chi a'ch mudiad yn elwa ar ***weithdai skill-builder hanner diwrnod ar dendro,*** sy'n rhan o brosiect peilot gan **WCVA** mewn partneriaeth â **DHRinterim**.

Mae ***gweithdai Skill-builder*** wedi'u hanelu at fudiadau, a'r bobl sy'n rhan ohonynt, sydd â phrofiad o dendro; y rhai hynny sydd eisoes wedi ymgymryd â lefel o weithgarwch tendro ac sydd wedi gweld angen i gynyddu sgiliau a gallu'r sawl sy'n gyfrifol am wneud y gwaith hwn yn y dyfodol, gyda'r nod o fod yn fwy llwyddiannus a chystadleuol.

Peidiwch ag archebu lle oni bai eich bod yn gallu ateb pob un o'r cwestiynau canlynol yn GADARNHAOL:

Ynghylch eich Mudiad:

1. **A yw'ch mudiad wedi paratoi a chyflwyno o leiaf un tendr yn ystod y 12 mis diwethaf?**

2. **A yw'ch Mudiad yn credu bod angen iddo ddysgu mwy am baratoi tendrau mwy llwyddiannus?**

3. **A yw'ch mudiad yn gweithio mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: iechyd / gofal cymdeithasol / gweithgarwch economaidd / bod heb waith**

Ynghylch eich Rôl:

4. **A ydych yn gyfrifol am (un neu fwy)**

    a. **Canfod tendrau y gall eich mudiad gynnig amdanynt**
    b. **Paratoi / llunio tendrau y bydd eich mudiad yn eu cyflwyno**
    c. **Rheoli a goruchwylio pobl eraill sy'n gyfrifol am ysgrifennu tendrau**

I gofrestru'ch diddordeb mewn mynychu'r gweithdai, cwblhewch y ffurflen archebu amgaeedig.

- Strwythuro ac Ysgrifennu Tendrau Cystadleuol – 20 Ebrill 2010, Y Rhyl
- Strwythuro ac Ysgrifennu Tendrau Cystadleuol – 21 Ebrill 2010, Caerfyrddin
- Cyflwyniadau Tendrau Cystadleuol – 5 Mai 2010, Caerfyrddin
- Cyflwyniadau Tendrau Cystadleuol – 6 Mai 2010, Y Rhyl

Os bydd eich cais am le'n llwyddiannus, byddwn yn eich hysbysu ar ôl 26 Mawrth 2010.

Os na allwch ateb pob un o'r cwestiynau uchod yn GADARNHAOL a bod tendro'n faes newydd i chi, efallai y byddai cwrs 2 ddiwrnod WCVA 'Sut i dendro' yn ddefnyddiol i chi. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth neu cysylltwch â Desg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu e-bostiwch help@wcva.org.uk

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Review My Tender is a product from DHRinterim Ltd.
www.dhrinterim.com